



Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
40/2016

Dyddiad Cyhoeddi:
11/07/2016

Cynhyrchu Amcangyfrif o Lefelau Tlodi Tanwydd yng Nghymru: 2012-2016

Crynodeb

Cynhyrchu Amcangyfrif o Lefelau Tlodi Tanwydd yng Nghymru: 2012-2016

Adele Beaumont, Jack Hulme, Elaine Simpson & Tad Nowak
BRE



Mae'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn farnau'r ymchwilydd ac nid o angenrheidrwydd yn farnau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Joseph Wilton

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3663

E-bost: joseph.wilton@wales.gsi.gov.uk

1. Crynodeb

- 1.1 Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i adrodd ar lefel y tlodi tanwydd (dangosydd 10%) yng Nghymru a rhwymedigaeth statudol i wneud popeth rhesymol i leihau nifer yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd, gyda'r nod o ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru erbyn 2018. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil a wnaed gan BRE i ddatblygu model ar gyfer rhagfynegi lefelau cyffredinol tlodi tanwydd, tlodi tanwydd difrifol, tlodi tanwydd ymhlith aelwydydd agored i niwed a lefelau tlodi tanwydd ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd 2012 i 2016.
- 1.2 Y set ddata sylfaenol a ddefnyddiwyd oedd Byw yng Nghymru 2008, a deilliwyd amcangyfrifon o'r lefelau tlodi tanwydd trwy fodelu nifer y mesurau gwella effeithlonrwydd ynni yr adroddwyd eu bod wedi'u gosod, ynghyd â newidiadau i brisiau tanwydd ac incwm aelwydydd, ac ailgyfrifo'r dangosydd tlodi tanwydd ar gyfer pob aelwyd yn y set ddata. Defnyddiwyd amcanestyniadau ynglŷn â gosodiadau effeithlonrwydd ynni, prisiau tanwydd a newidiadau incwm ar gyfer 2015 i 2016 i ragfynegi lefelau tlodi tanwydd 2016. Defnyddiwyd dull Monte-Carlo i efelychu cymhwyso nifer y gwelliannau effeithlonrwydd ynni yr adroddwyd amdanynt i stoc dai Cymru.
- 1.3 Yn 2012, rhagfynegwyd bod 29% o'r holl aelwydydd (364,000 o aelwydydd) mewn tlodi tanwydd. Gostyngodd hyn ychydig i 28% (351,000 o aelwydydd) yn 2013 a chyrrhaeddodd frig o 30% (376,000 o aelwydydd) yn 2014. Mae'r cyfuniad o incwm aelwydydd sy'n cynyddu (yn gymedrol), gostyngiad yn nefnydd aelwydydd o ynni o ganlyniad i welliannau effeithlonrwydd ynni, a phrisiau nwy ac olew sydd wedi bod yn gostwng ers 2014, wedi arwain at ostyngiad mewn lefelau tlodi tanwydd ar draws pob aelwyd yng Nghymru ers 2014 i lefel ragamcanol o 23% (291,000 o aelwydydd) yn 2016.
- 1.4 Cyfrifwyd bod lefelau tlodi tanwydd difrifol (a ddiffinnir fel unrhyw aelwyd sy'n gorfod gwario mwy na 20% o incwm yr aelwyd ar gostau tanwydd) wedi aros yn gymharol wastad rhwng 2012 a 2014, a

ddilynwyd gan ostyngiad yn 2015, gan arwain at lefel ragamcanol o dlodi tanwydd difrifol o 3% (40,000 o aelwydydd) yn 2016.

- 1.5 Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio aelwyd agored i niwed fel un sy'n cynnwys rhywun 60 oed neu hŷn, plentyn/person ifanc iau na 25 oed, neu rywun anabl neu sydd ag unrhyw gyflwr tymor hir cyfyngol. Gwelwyd patrwm tebyg o newidiadau o ran lefelau tlodi tanwydd mewn aelwydydd agored i niwed, er y cyfrifir bod cyfran ychydig yn uwch o aelwydydd agored i niwed mewn tlodi tanwydd, gan ostwng o 31% yn 2012 (328,000 o aelwydydd agored i niwed) i 24% yn 2016 (261,000 o aelwydydd agored i niwed).
- 1.6 Ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol, rhagfynegwyd bod 33% (73,000 o aelwydydd yn y sector cymdeithasol) mewn tlodi tanwydd yn 2012, gan ostwng i 27% (61,000 o aelwydydd yn y sector cymdeithasol) yn 2016. O gymharu â'r holl aelwydydd, gwelwyd patrwm tebyg yn y newidiadau mewn lefelau tlodi tanwydd rhwng 2012 a 2016 ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol, er y cyfrifwyd bod cyfran uwch o denantiaid tai cymdeithasol yn dlawd o ran tanwydd o gymharu â'r holl aelwydydd.
- 1.7 Mae'r lefelau tlodi tanwydd cenedlaethol a ragfynegwyd ar gyfer Cymru yn uwch nag yn Lloegr ond yn is nag yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon (fel canran o'r holl aelwydydd).
- 1.8 O dan y diffiniad Incwm Isel Costau Uchel (LIHC), rhagfynegwyd bod 141,000 o aelwydydd (11%) mewn tlodi tanwydd yn 2012, gan ostwng i 132,000 o aelwydydd (10%) yn 2016. Mae'r dangosydd LIHC yn cynnwys ail ddangosydd yn ymwneud â difrifoldeb tlodi tanwydd ymhlith aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd, a fesurir trwy fwch tlodi tanwydd sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y costau tanwydd angenrheidiol ar gyfer aelwyd a'r costau tanwydd angenrheidiol cymedrig. Amcangyfrifwyd mai bwch tlodi tanwydd cyfanredol yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd oedd £78 miliwn yn 2012, gan ostwng i lefel ragamcanol o £60 miliwn yn 2016. Gostyngodd y bwch tlodi tanwydd cyfartalog o £552 yn 2012 i £453 yn 2016